**Disgrifiad Swydd: Swyddi Gwasanaethau Proffesiynol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth** | Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol |
| **Teitl y Swydd:** | Swyddog Marchnata (Cymraeg) |
| **Adran/Pwnc:** | Marchnata |
| **Cyflog:** | Gradd 07, £32,982 – £37,099 y flwyddyn, ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | Amser Llawn – 35 awr yr wythnos |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd barhaol yw hon |
| **Lleoliad:** | Campws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod yn un o'r 30 o brifysgolion gorau, mae angen ar Brifysgol Abertawe weithlu â'r sgiliau amrywiol angenrheidiol i sicrhau ei bod yn gallu cyflawni rhagoriaeth mewn ymchwil, addysgu, dysgu a phrofiad ehangach y myfyrwyr, ac i fod yn bwerdy ar gyfer economi'r rhanbarth ac yn rhyngwladol.<br><br>Mae Gwasanaeth Marchnata'r Brifysgol yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol (MRI). Mae'r Gwasanaeth Marchnata'n gyfrifol am:<br>• Ddarparu allbynnau marchnata sy'n gyson â nodau strategol a gwerthoedd y Brifysgol<br>• Ymrwymiad i gynnal ymgyrchoedd, cynnwys, atebion digidol, brand a chynhyrchu creadigol o safon sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n gwella enw da Prifysgol Abertawe<br>• Arddangos rhagoriaeth, amrywiaeth ac effaith gweithgareddau'r Brifysgol. Mae'r Gwasanaeth Marchnata'n gyfrifol am y meysydd gwasanaeth canlynol - y we, cynhyrchu creadigol, ymgyrchoedd, brand, cynnwys a chefnogi cynnyrch.<br><br>Bydd deiliad rôl y Swyddog Marchnata yn cefnogi Rheolwyr Marchnata i gynnal gweithgarwch marchnata ar draws amrywiaeth o sianeli, cynhyrchion a chynulleidfaoedd sy'n gyson â nodau strategol a gwerthoedd y Brifysgol.<br><br>Mae'r rôl hon yn gofyn am rywun sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac sy'n meddu ar sgiliau trefnu a rheoli phrosiectau ardderchog. Mae angen i ddeiliad y swydd fod yn feddyliwr creadigol â hanes o gyflawni gweithgarwch marchnata a chynlluniau sy'n cyflawni canlyniadau amlwg, a dylai allu gweithio'n annibynnol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau marchnata cyfrwng Cymraeg sy'n ymwneud â'r maes gwasanaeth rydych yn gyfrifol amdano, a'u cyflawni'n weithredol<br>2. Bod yn gyfrifol am ddiogelu a gwella brand y Brifysgol ar draws yr holl gynnwys, ymgyrchoedd a sianeli cyfrwng Cymraeg sy'n ymwneud â'ch maes gwasanaeth<br>3. Defnyddio data a chraffter i nodi cyfleoedd yn y farchnad a gweithgareddau i ddatblygu eich maes gwasanaeth<br>4. Creu a chyflawni'r cynnwys, yr asedau a'r ymgyrchoedd marchnata integredig wedi'u targedu, sy'n angenrheidiol i helpu i gyflawni amcanion strategol y Brifysgol yn eich maes gwasanaeth<br>5. Gwneud y gorau o gynnwys Cymraeg i ddiwallu anghenion ystod o gynulleidfaoedd a sianeli i ymestyn oes y cynnwys hwn<br>6. Cynhyrchu a gwneud y gorau o dudalennau gwe, cynnwys ac ymgyrchoedd Cymraeg, chwiliadwy ac addysgiadol wedi'u teilwra ar gyfer cynulleidfaoedd targed y Brifysgol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

fyfyrwyr y dyfodol (pob lefel, pob marchnad), cyllidwyr a phartneriaid ymchwil, digwyddiadau corfforaethol fel yr Eisteddfod, Varsity, Hanner Marathon Abertawe a Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe
7. Ymgymryd ag ymchwil i allweddeiriau a gweithredu strategaethau optimeiddio peiriannau chwilio i wella gwelededd ar-lein y Brifysgol a sicrhau'r safle gorau posibl yn y peiriant chwilio
8. Cynnal ymchwil i ddeall anghenion a dyheadau cynulleidfaoedd targed Cymraeg a gweithredu'r craffter hwn ar draws gweithgarwch marchnata
9. Gweithio'n agos gyda chynulleidfaoedd a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod allbynnau marchnata Cymraeg yn cyd-fynd â strategaeth gyffredinol y Brifysgol a sicrhau bod anghenion y cwsmeriaid a'r defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diwallu
10. Bod yn rheolwr prosiect ar gyfer y gweithgarwch marchnata gofynnol ar gyfer eich maes gwasanaeth, a chyflawni'r gweithgarwch hwnnw, gan gynnwys cynllunio, gweithredu ac adolygu ymgyrchoedd, creu cynnwys sy'n sicrhau canlyniadau diriaethol, cefnogi'r gwaith o sicrhau presenoldeb ar-lein o'r radd flaenaf drwy ein gwefan a'n prif sianeli cyfryngau cymdeithasol gan sicrhau dull dwyieithog o ymdrin â'r holl weithgarwch marchnata a bod y Gymraeg wedi'i chynnwys o'r cam cynllunio i'r cam adolygu ar gyfer pob gweithgaredd marchnata priodol
11. Gwerthuso gweithgarwch marchnata yn eich ardal gan ddefnyddio meddalwedd ac offer dadansoddol, gallu ysgrifennu adroddiadau dadansoddi marchnata yn ôl yr angen ar gyfer eich rheolwr llinell
12. Datblygu a chynnal perthnasoedd allweddol yn fewnol ac yn allanol sy'n cefnogi eich maes gan gynnwys o fewn MRI, adrannau academaidd, unedau gwasanaeth proffesiynol a chyrff perthnasol, asiantau, cyllidwyr a phartneriaid a darparwyr trydydd parti perthnasol eraill
13. Blaenoriaethu tasgau i fodloni terfynau amser a rheoli llwyth gwaith yn effeithlon wrth gynnal ansawdd a chywirdeb 14. Bod yn rheolwr llinell i gydweithwyr i gyflawni canlyniadau gweithredol
15. Helpu i gynnal Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol ystyrlon sy'n helpu pobl i wneud cynnydd; gallu rheoli materion AD a ddyrennir i chi, megis gwyliau blynyddol, salwch, darparu eglurder am rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd. 16. Sicrhau y glynir wrth bolisïau a phrosesau'r Brifysgol bob amser.
17. Sicrhau cydymffurfiaeth ar draws deddfwriaeth a pholisïau allanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r CMA, Safonau'r Gymraeg a'r GDPR
18. Rhoi cymorth gweithredol drwy gydol y cyfnod Cadarnhau a Chlirio yn ôl cyfarwyddyd rheolwr llinell
19. Darparu cymorth gweithredol ar gyfer digwyddiadau recriwtio allweddol, megis Diwrnodau Agored, ffeiriau allanol, yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell
20. Gweithio'n agos gyda phob maes yn y Gwasanaeth Marchnata
21. Gweithredu fel aelod ystwyth o'r Gwasanaeth Marchnata, yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Llinell neu ei enwebai o ganlyniad i anghenion gweithredol a busnes
22. Darparu gwasanaeth proffesiynol, effeithlon sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid er mwyn sicrhau bod canlyniadau marchnata'n cael eu cyflwyno'n brydlon i'r lefel gwasanaeth y cytunwyd arni
23. Ceisio, rhoi a gweithredu ar adborth i wella fel gweithiwr proffesiynol, gan gymryd cyfrifoldeb am eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich hun

Fel Cyfarwyddiaeth perfformiad uchel sy'n gwella'n barhaus, disgwylir i'r holl aelodau staff gyflawni rolau gwahanol mewn agweddau eraill ar waith Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol neu'r Brifysgol ehangach, er twf personol a phroffesiynol neu yn unol â gofynion gweithredol.

• Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol
• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gweithio a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.

| | |
|---|---|
| | • Arwain ar wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o'r proffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>• Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Llinell neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'ch gweithgareddau beunyddiol i sicrhau bod arferion gwaith yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol. |
| **Gwerthoedd y Gwasanaethau Proffesiynol** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn ôl cyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd - Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol - a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein huniondeb a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.<br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddynt a ni yn brofiad personol a chadarnhaol. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym. |
| **Manyleb Person** | Meini prawf hanfodol: Craidd:<br>• Tystiolaeth o ymfalchïo mewn darparu atebion a gwasanaethau proffesiynol<br>• Y gallu i gydweithio mewn amgylchedd o gydraddoldeb, ymddiriedaeth a pharch i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid<br>• Tystiolaeth o ymagwedd ofalgar at eich holl gwsmeriaid, gan sicrhau profiad personol a chadarnhaol<br>• Cymwysterau siaradwr Cymraeg rhugl:<br>• Gradd neu gymhwyster marchnata perthnasol neu brofiad gwaith perthnasol cyfatebol mewn adran farchnata<br><br>Gwybodaeth a Sgiliau:<br>1. Dealltwriaeth ardderchog o'r proffesiwn marchnata yng nghyd-destun gweithgarwch cyfrwng Cymraeg<br>2. Tystiolaeth o feithrin perthnasoedd gwaith ar draws gwahanol dimau, partneriaid ac asiantaethau, mewn perthynas â chyflawni gweithgareddau marchnata<br>3. Profiad o ddatblygu a darparu cynlluniau marchnata integredig<br>4. Tystiolaeth o gwblhau, mesur a dadansoddi prosiectau'n llwyddiannus<br>5. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ardderchog, gan gynnwys creu cynnwys ar gyfer gwefannau, ymgyrchoedd, deunydd print a phlatfformau'r cyfryngau cymdeithasol<br>6. Sgiliau Digidol a TG ardderchog, gan gynnwys gwybodaeth ymarferol dda am systemau Microsoft Office a'r gallu i ddefnyddio systemau rheoli cynnwys ar-lein, a dulliau hysbysebu a dadansoddi amrywiol<br>7. Profiad o ymgysylltu â staff, gan weithio ar draws sawl adran ac ar bob lefel i gyflawni canlyniadau llwyddiannus yn unol ag amcanion marchnata |

| | |
|---|---|
| | 8. Sgiliau trefnu a rheoli prosiectau ardderchog<br>9. Tystiolaeth o ddarpariaeth gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog<br>10. Tystiolaeth o ddefnyddio data i wella ymgyrchoedd marchnata sy'n briodol i'r gynulleidfa/sianel<br>11. Tystiolaeth o flaenoriaethu a rheoli nifer o dasgau'n effeithiol<br>12. Ymagwedd ragweithiol â'r gallu i ymaddasu, a'r gallu i weithio'n effeithiol dan bwysau.<br>13. Sylw cryf i fanylion a sicrhau y glynir wrth bolisïau, prosesau a gweithdrefnau rheoli ansawdd.<br><br>Iaith Gymraeg: Lefel 3 - Yn rhugl Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma.<br><br>Meini Prawf Dymunol:<br>1. Profiad o weithio yn y sector Addysg Uwch<br>2. Y gallu i gyfathrebu mewn unrhyw iaith arall<br>3. Cymhwyster ôl-raddedig neu broffesiynol perthnasol |
| **Welsh language level** | Lefel 3 – 'rhugl', gallu cynnal sgwrs yn rhugl yn Gymraeg ar fater sy'n ymwneud â gwaith. Gallu ysgrifennu deunydd Cymraeg gwreiddiol yn hyderus.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol:<br>Nicola Parry n.parry@abertawe.ac.uk |